

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
02/07/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions to the Minister for Heritage
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

Illegally Dumped Waste

Gwastraff sy'n cael ei Ddympio'n
Anghyfreithlon

Q11 William Graham: What discussions has the Minister held with the UK Government concerning the control of illegally dumped waste? OAQ(3)0445(ESH)

C11 William Graham: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch rheoli gwastraff sy'n cael ei ddympio'n anghyfreithlon? OAQ(3)0445(ESH)

Jane Davidson: I am in regular correspondence with the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs over the range of waste issues, and I recently launched a joint consultation with the Department for Environment, Food and Rural Affairs on the handling, transfer and transport of waste and powers to stop, search and seize vehicles used in waste crime.

Jane Davidson: Yr wyf yn gohebu'n rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynglŷn â'r amrywiol broblemau sy'n gysylltiedig â gwastraff, a bu imi lansio ymgynghoriad yn ddiweddar ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar drin, trosglwyddo a chludo gwastraff, a phwerau i stopio, chwilio ac ymafael yng ngherbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer troseddau gwastraff.

Rural Housing Enablers

Swyddogion Galluogi Tai Gwledig

Q12 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for rural housing enablers? OAQ(3)0432(ESH)

C12 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i swyddogion galluogi tai gwledig? OAQ(3)0432(ESH)

The Deputy Minister for Housing (Jocelyn Davies): Rural Housing Enablers have operated in Wales for three years with Welsh Assembly Government. Due to the success of the scheme, I have set up a rural development fund, of which £150,000 will be used as match funding to provide an expanded network of eight enablers and a central support function.

Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies): Bu swyddogion galluogi tai gwledig yn gweithredu yng Nghymru ers tair mlynedd gyda chyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Oherwydd llwyddiant y cynllun, yr wyf wedi sefydlu cronfa datblygu gwledig, gyda £150,000 ohoni'n cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol i ehangu'r rhwydwaith i wyth o swyddogion galluogi, gyda chefnogaeth ganolog iddynt.

Protecting Green Spaces

Gwarchod Mannau Glas

Q13 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on measures to protect green spaces across Wales? OAQ(3)0423(ESH)

C13 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau i warchod manau glas ledled Cymru? OAQ(3)0423(ESH)

Jane Davidson: National planning policies to protect formal and informal green spaces across Wales are set out in 'Planning Policy Wales'. Those should be taken into account by local planning authorities when preparing the local development plans that provide the basis for their day-to-day planning decisions.

Jane Davidson: Mae polisiau cynllunio cenedlaethol i ddiogelu manau glas ffurfiol ac anffurfiol ledled Cymru wedi eu hamlinellu yn 'Polisi Cynllunio Cymru'. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y rheiny wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol, sy'n sail i'r penderfyniadau cynllunio maent yn eu gwneud o ddydd i ddydd.

Tackling Fuel Poverty

Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd

Q14 Janice Gregory: What is the Welsh Assembly Government doing to tackle fuel poverty in Wales? OAQ(3)0466(ESH)

C14 Janice Gregory: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru? OAQ(3)0466(ESH)

Jane Davidson: We are reviewing our policies, as part of our work on a national energy efficiency and saving plan, to ensure that we optimise assistance to households affected by fuel poverty. I am also pleased that Wales will be part of the low carbon buildings programme fuel poverty pilot programme.

Jane Davidson: Yr ydym yn adolygu ein polisiau, fel rhan o'n gwaith ar gynllun effeithlonrwydd ac arbed ynni cenedlaethol, i sicrhau ein bod yn rhoi cymaint o gymorth â phosibl i gartrefi y mae tlodi tanwydd yn effeithio arnynt. Yr wyf hefyd yn falch y bydd Cymru yn rhan o raglen beilot tlodi tanwydd y rhaglen adeiladau carbon isel.

Young Trade Unionists

Undebwyr Llafur Ifanc

Q15 Janice Gregory: Does the Minister envisage a role for young trade unionists in promoting awareness of the Welsh Assembly Government's green agenda? OAQ(3)0465(ESH)

C15 Janice Gregory: A yw'r Gweinidog yn rhagweld swyddogaeth ar gyfer undebwyr llafur ifanc o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o agenda werdd Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0465(ESH)

Jane Davidson: I hope to engage with all our stakeholders in developing our revised sustainable development scheme and in our forthcoming consultation on the environment

Jane Davidson: Yr wyf yn gobeithio ymgysylltu â'n holl randdeiliaid wrth ddatblygu ein cynllun datblygu cynaliadwy diwygiedig, ac yn ein hymgyngoriad

strategy action plan. I am looking at developing a workplace component to our climate change campaign and hope to work with trade unions and businesses on this.

arfaethedig ar y cynllun gweithredu strategaeth amgylcheddol. Fy mwriad yw datblygu elfen ar gyfer y gweithle yn ein hymgyrch ar newid yn yr hinsawdd, ac yr wyf yn gobeithio cydweithio ag undebau llafur a busnesau ar hyn.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to Minister for Heritage

Sports Clubs

Q11 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support available for community-run sports clubs in Torfaen? OAQ(3)0416(HER)

Rhodri Glyn Thomas: The Welsh Assembly Government is committed to supporting sports clubs via the Sports Council for Wales. Over the last year in the Torfaen area over, £150,000 was invested in a range of projects to support clubs. This included providing new sports equipment, arranging coach education and improving changing facilities.

Clybiau Chwaraeon

C11 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i glybiau chwaraeon sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned yn Nhor-faen? OAQ(3)0416(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi clybiau chwaraeon drwy Gyngor Chwaraeon Cymru. Cafodd dros £150,000 ei fuddsoddi yn ardal Tor-faen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ar amrywiol brosiectau i gefnogi clybiau. Yr oedd hyn yn cynnwys darparu offer chwaraeon newydd, trefnu i addysgu hyfforddwyr a gwella cyfleusterau newid.

Darlledu yng Nghymru

C12 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau diweddar a gafodd ynghylch darlledu yng Nghymru? OAQ(3)0440(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf wedi cynnal nifer o drafodaethau yn ddiweddar ynghylch darlledu yng Nghymru.

Broadcasting in Wales

Q12 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on the recent discussions he has had regarding broadcasting in Wales? OAQ(3)0440(HER)

Rhodri Glyn Thomas: I have held many discussions recently regarding broadcasting in Wales.

Public Awareness of Achievements

Q13 Janice Gregory: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy on raising public awareness of the achievements of those Welsh men and women who have contributed to the arts, the sciences and public life in past generations? OAQ(3)0410(HER)

Rhodri Glyn Thomas: The Welsh Assembly Government undertakes and supports a variety of initiatives that raise public awareness of the achievements of Welsh men and women, both past and present, who have contributed to the whole spectrum of life in

Ymwybyddiaeth y Cyhoedd o Lwyddiant

C13 Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiannau'r dynion a'r menywod hynny o Gymru sydd wedi cyfrannu at y celfyddydau, y gwyddorau a bywyd cyhoeddus mewn cenedlaethau a fu? OAQ(3)0410(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal ac yn cefnogi amrywiol fentrau sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiannau dynion a menywod o Gymru, ddoe a heddiw, sydd wedi cyfrannu tuag at y sbectrwm cyfan o fywyd yng

Wales.

Nghymru.

Sports Coaching

Hyfforddiant Chwaraeon

Q14 Alun Davies: Will the Minister make a statement on widening access to sports coaching in Wales? OAQ(3)0418(HER)

C14 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ehangu mynediad at hyfforddiant chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)0418(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Coaching plays a fundamental part in the delivery of sport and physical activity in Wales. The Welsh Assembly Government is fully committed, through 'One Wales', to the provision of more coaches and leaders and to widening access to coaching opportunities.

Rhodri Glyn Thomas: Mae hyfforddiant yn chwarae rhan sylfaenol wrth ddarparu chwaraeon a gweithgaredd corfforol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llawn, drwy 'Cymru'n Un', i ddarparu mwy o hyfforddwyr ac arweinwyr, ac i sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfleoedd i gael hyfforddiant.

Atyniadau Diwylliannol yng Nghymru

Welsh Cultural Attractions

C15 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant atyniadau diwylliannol yng Nghymru? OAQ(3)0415(HER)

Q15 Paul Davies: Will the Minister make a statement on the success of Welsh cultural attractions? OAQ(3)0415(HER)

Rhodri Glyn Thomas: Mae nifer yr ymwelwyr i atyniadau diwylliannol yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, cafwyd mwy o ymwelwyr nag erioed i saith safle Amgueddfa Cymru. Mae adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o dwristiaeth ddiwylliannol hefyd wedi canfod mai'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd i dwristiaid yng Nghymru yw ymweld â lleoliadau sy'n gysylltiedig â'n treftadaeth.

Rhodri Glyn Thomas: The number of visitors going to cultural attractions in Wales has steadily increased over the past year. In particular, there were record-breaking visitor numbers for the seven National Museum Wales sites. The Assembly Government's review of cultural tourism also found that visiting heritage sites is the most popular activity for tourists in Wales.

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

Credit Unions

Undebau Credyd

Q10 Irene James: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support credit unions in Wales? OAQ(3)0398(SJL)

C10 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi undebau credyd yng Nghymru? OAQ(3)0398(SJL)

Leighton Andrews: We have promised another £1.25 million for 'One Wales' commitments to improve credit union coverage, to provide access for secondary

Leighton Andrews: Yr ydym wedi addo £1.25 miliwn arall ar gyfer ymrwymadau 'Cymru'n Un' i sicrhau bod undebau credyd ar gael i fwy o bobl, i alluogi disgyblion

pupils, and to increase credit unions offering child trust fund accounts. I expect all-Wales coverage of credit unions to be established later this year

uwchradd i'w defnyddio, ac i gynyddu nifer yr undebau credyd sy'n cynnig cyfrifon o dan gronfa ymddiriedolaeth plant. Yr wyf yn disgwyl i undebau credyd gael eu sefydlu ledled Cymru yn ddiweddarach eleni.

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

The Post Office Network

C11 Paul Davies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi rhwydwaith swyddfeydd post Cymru? OAQ(3)0411(SJL)

Q11 Paul Davies: What is the Welsh Assembly Government doing to support the post office network in Wales? OAQ(3)0411(SJL)

Leighton Andrews: Nid yw polisi swyddfeydd post wedi ei ddatganoli, a'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio sydd â'r prif gyfrifoldeb dros hyn. Mae swyddfeydd post yng Nghymru wedi derbyn cymorth hael eisoes o ran rhyddhad ardrethi. Hefyd, bydd cronfa ddatblygu newydd swyddfeydd post yn agor ar 1 Ionawr 2009, a fydd yn rhoi hyd yn oed mwy o gymorth.

Leighton Andrews: Post office policy is non-devolved, with lead responsibility resting with the Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform. Post offices in Wales already receive generous support in terms of rate relief. Additionally, a refocused post office development fund will be open from 1 January 2009, providing even further support.

Tâl Cyfartal

Equal Pay

C12 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo tâl cyfartal yng Nghymru? OAQ(3)0424(SJL)

Q12 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to promote equal pay in Wales? OAQ(3)0424(SJL)

Brian Gibbons: Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr cynghorau lleol, gan fanteisio ar y cyfle i esbonio'r achos dros dâl cyfartal. Yr wyf hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr Cyngres Undebau Llafur Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y ffordd orau i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio a chefnogi'r broses o hyrwyddo tâl cyfartal yng Nghymru ymhellach.

Brian Gibbons: I regularly meet with leaders of local councils, using the opportunity to expound the case for equal pay. I have also held discussions with representatives from the Wales Trades Union Congress and the Equality and Human Rights Commission on how best the Welsh Assembly Government can further collaborate and support the promotion of equal pay in Wales.

Anti-social Behaviour

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Q13 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to tackle anti-social behaviour? OAQ(3)0400(SJL)

C13 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? OAQ(3)0400(SJL)

Brian Gibbons: The Welsh Assembly Government is supporting community safety partnerships to ensure a joined up, multi-agency approach to tackling anti-social behaviour in Wales.

Brian Gibbons: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol i sicrhau bod mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru yn broses gydgyssylltiedig, sy'n cynnwys

sawl asiantaeth.

Council Tax Collection

Q14 Lesley Griffiths: Will the Minister make a statement on council tax collection in Wales? OAQ(3)0431(SJL)

Brian Gibbons: Local authorities have responsibility for the billing and collection of council tax. Local authorities in Wales have a good track record of council tax collection and, for the financial year 2006-07, 96.6 per cent of all council tax billed was collected.

Casglu Treth Cyngor

C14 Lesley Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gasglu'r dreth gyngor yng Nghymru? OAQ(3)0431(SJL)

Brian Gibbons: Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am filio a chasglu'r dreth gyngor. Mae awdurdodau lleol Cymru wedi llwyddo'n dda i gasglu'r dreth gyngor yn y gorffennol, ac yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07, yr oedd 96.6 y cant o'r dreth gyngor a gafodd ei bilio wedi ei chasglu.

Cleanliness of Public Toilets

Q15 Jenny Randerson: What is the Minister doing to ensure the cleanliness of public toilets in Wales? OAQ(3)0423(SJL)

Brian Gibbons: Local authorities are responsible for the provision and maintenance of public conveniences, within the context of local needs and available resources. They are responsible to their electorate for the standards of service that they provide.

Glanweithdra Toiledau Cyhoeddus

C15 Jenny Randerson: Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau glanweithdra toiledau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0423(SJL)

Brian Gibbons: Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus, o fewn cyd-destun anghenion lleol, a'r adnoddau sydd ar gael. Maent yn gyfrifol i'w hetholwyr am safonau'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.